# Cefnogi â gofal ar ôl marwolaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth yn unol â dewisiadau’r unigolyn. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ofal personol ar ôl marwolaeth, rhoi cymorth i eraill o ran gweld yr unigolyn sydd wedi marw, a throsglwyddo'r unigolyn sydd wedi marw yn urddasol a pharchus.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno rolau a chyfrifoldebau pawb wrth roi gofal ar ôl marwolaeth
2. gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â’r gwaith i gytuno ar sut y bydd gofal ar ôl marwolaeth yn cael ei roi yn unol â dewisiadau unigolion ac eraill, a’r amgylchiadau sy’n gysylltiedig â’r farwolaeth
3. casglu’r holl bethau ymolchi, deunyddiau, cyfarpar a dillad ar gyfer gofal personol yr unigolyn sydd wedi marw
4. sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol, yn cael eu defnyddio
5. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio, cyflawni a chydlynu gofal personol a symud a lleoli’r unigolyn sydd wedi marw
6. ymgymryd â gweithgareddau gofal personol, gwisgo ac esthetig ar gyfer yr unigolyn sydd wedi marw mewn ffordd urddasol a pharchus
7. gwneud yn siŵr bod adnoddau a chyfarpar yn cael eu gwaredu, eu dychwelyd, neu eu glanhau a'u storio
8. dilyn gofynion y gweithle ar gyfer adnabod yr unigolyn sydd wedi marw
9. dilyn gofynion y gweithle ar gyfer cofnodi eitemau personol yr unigolyn sydd wedi marw
10. glanhau, tacluso a pharatoi amgylcheddau cyn ac ar ôl gweld a throsglwyddo'r unigolyn sydd wedi marw
11. cefnogi eraill mewn ffordd urddasol a pharchus a rhoi'r amser, y preifatrwydd a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i weld yr unigolyn sydd wedi marw
12. cyfrannu at drosglwyddo'r unigolyn sydd wedi marw mewn ffordd urddasol a pharchus sy'n lleihau gofid i eraill
13. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi â gofal ar ôl marwolaeth
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am y dewisiadau ar gyfer gofal ar ôl marwolaeth, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno, a pham fod hyn yn bwysig
2. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar y ffordd mae gofal ar ôl marwolaeth yn cael i roi
3. yr amserlenni i'w dilyn ar gyfer gofal ar ôl marwolaeth, a pham eu bod yn bwysig
4. yr effaith ar amserlenni os yw'r unigolyn sydd wedi marw yn rhoddwr organau neu feinwe
5. sut a pham y mae angen cynnwys eraill yng ngofal personol yr unigolyn sydd wedi marw, a phwysigrwydd eu paratoi a'u cefnogi
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth
7. sut mae rhoi cefnogaeth a chysur i eraill â'u hemosiynau cyn, yn ystod ac ar ôl gweld yr unigolyn sydd wedi marw
8. pwysigrwydd defnyddio dulliau cyfathrebu ac iaith yn sensitif wrth gefnogi eraill yn ystod y gofal ar ôl marwolaeth
9. cymhlethdod perthnasoedd a'r effaith y gall marwolaeth ei chael
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi eraill yn ystod y gofal ar ôl marwolaeth
11. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi gofal ar ôl marwolaeth
12. y newidiadau corfforol sy'n digwydd ar ôl marwolaeth a sut y gallai hyn effeithio ar symud yr unigolyn sydd wedi marw
13. y gwahanol weithgareddau esthetig y gellir eu cyflawni i baratoi'r unigolyn sydd wedi marw ar gyfer cael ei weld
14. y gwahanol fathau o bethau ymolchi, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gofal personol yr unigolyn sydd wedi marw a phwysigrwydd dewis dillad
15. dulliau i sicrhau y cadarnheir yn glir pwy yw'r unigolyn, a pham fod hyn yn bwysig
16. sut mae cofnodi eitemau personol a phwysigrwydd nodi a ydynt am gael eu gadael ar yr unigolyn sydd wedi marw
17. rôl amgylcheddau, amser, preifatrwydd a chyfleusterau i gefnogi eraill wrth weld yr unigolyn sydd wedi marw
18. sut mae trosglwyddo'r unigolyn sydd wedi marw mewn ffordd urddasol a pharchus sy'n lleihau gofid i eraill

19. y dulliau atal a rheoli heintiau a ddefnyddir yn ystod y gofal ar ôl marwolaeth, a pham fod hyn yn bwysig
20. y cofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi â gofal ar ôl marwolaeth
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi â gofal ar ôl marwolaeth
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth
23. sut mae gofyn am gymorth i chi eich hun a chyfeirio eraill am gymorth wrth ymdopi â marwolaeth
24. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn ystod y gofal ar ôl marwolaeth
25. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth
26. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi â gofal ar ôl marwolaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi â gofal ar ôl marwolaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD227 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Marwolaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |